# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020

Amser: 09.30 - 11.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6406

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Jack Sargeant AS (yn lle Hefin David AS)<br>Suzy Davies AS<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg<br>Claire Bennett, Cyfarwyddwr - Cymunedau a Threchu Tlodi<br>Ceri Planchant, Cyfreithiwr |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Hefin David AS. Dirprwyodd Jack Sargeant AS ar ei ran.

## 2 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 1 gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg.

2.2 Nododd y Pwyllgor ei fwriad i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad pellach o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), yn enwedig y camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gydnaws â deddfwriaeth hawliau dynol.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.